# Y Pwyllgor Deisebau

# Cofnodion (PET(3)-10-08)

**Dyddiad: Dydd Mercher 25 Mehefin 2008**
**Amser: 0904 - 1010am**
**Lleoliad Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

Kirsty Williams AM, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Swyddogion

Stefan Sanchez, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mike German. Roedd Kirsty Williams yn dirprwyo ar ran Mike German.

Cytunodd y Pwyllgor ar y canllawiau gweithdrefnol interim a awgrymwyd gan y Cadeirydd.

Caiff rhagor o ganllawiau drafft eu trafod yn ystod Tymor yr Hydref.

### Eitem 2: Deisebau Newydd

PET(3) 10-08 Papur 1

**P-03-121** Cylchfan Treforys

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Datganodd Val Lloyd AC fuddiant yn y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo a ydy e wedi rhoi unrhyw gyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol ar flaenoriaethu o gynlluniau gwella traffig.

**P-03-134** System Anrhydeddau i Gymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gael gwybodaeth am nifer y bobl sy'n cael eu henwebu i dderbyn neu wrthod anrhydeddau yng Nghymru.

**P-03-135** Mae Parcio Sant Illtyd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i ofyn iddo ddarparu manylion i'r Pwyllgor am berchnogaeth y maes parcio, ac a oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phryderon y deisebwyr.

Gofyn i'r tîm clercio ddarparu map o'r safle.

**P-03-139** Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Datganodd Kirsty Williams fuddiant yn y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2008 yn Sioe Frenhinol Cymru.

Ymchwilio i'r posibilrwydd o ymweld â Chanolfan Gelfyddydau Glannau Gwy

**P-03-144** Cwn tywys y deillion

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ddarparu papur briffio cefndirol ar y ddeiseb hon dros doriad yr haf.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygiadau mannau cyffredin a rennir.

**P-03-145** Prisiau Tanwydd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Datganodd Andrew RT Davies fuddiant yn y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am wybodaeth ynghylch unrhyw gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd.

Gofyn i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ystyried sefydlu grŵp adrodd i ymchwilio i'r mater hwn.

## Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

PET(3) 10-08 Papur 2

**P-03-082** Ysgol Hen Felin

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw arian ychwanegol a ddyrennir i'r dibenion a amlinellir yn ei llythyr.

**P-03-088** Gwasanaethau bws gwledig

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r deisebwyr roi sylwadau ysgrifenedig ar lythyr y Gweinidog.

Arwain y deisebwyr at fforwm trafnidiaeth lleol a Track fel bod ganddynt lwybr parhaus y gallant fynegi'u pryderon drwyddo.

**P-03-116** Fferm Wynt Coedwig Dyfnant

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan na all y Pwyllgor wneud dim rhagor yn y cyswllt hwn.

**P-03-118** Cymdeithas Canwio Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gomisiynu papur ar gyfer gwasanaeth cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n amlinellu'r ddadl ac yn dangos y llwybr deddfwriaethol y byddai'n rhaid i gynnig y ddeiseb ei chymryd.

**P-03-120** RANT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r deisebwyr roi sylwadau ysgrifenedig ar lythyr y Gweinidog a darparu'r dystiolaeth ychwanegol y maent wedi honni sy'n dadlau safle Llywodraeth y Cynulliad.

**P-03-123** Ffyrdd heb eu Mabwysiadu

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn a ydy materion cyfreithiol neu dechnegol yn gwneud delio gyda'r mater hon yn fwy anodd i'w aelodau.

**P-03-130** Band Eang yn St Brides

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i argymell eu bod yn cofrestru eu man gwan ar gyfer derbyn band eang, a'u harwain at asiantaeth a all roi cyngor diduedd iddynt am ddarpariaeth rhyngrwyd cyflym amgen.